TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 19 Awst 2021

# Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydyn ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

**Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

> *"Allwch chi anfon rhestr ataf o'r holl orsafoedd rydych chi'n eu rheoli sy'n nodi a oes cyhoeddiadau awtomatig yn cael eu gwneud ynddynt ai peidio a pha un o'ch dwy system cyhoeddiadau awtomatig sy'n cael ei defnyddio ym mha orsafoedd. Rwy'n deall bod dwy system cyhoeddiadau awtomatig yn cael eu defnyddio yn eich gorsafoedd ar hyn o bryd.*
>
> *- Yn y gorsafoedd mwy, mae'r system Atos (Worldline) ar waith sy'n defnyddio lleisiau pobl go iawn, sef Ruth Mitchell (Saesneg) ac Eryl Jones (Cymraeg)*
>
> *- Yn y gorsafoedd llai, defnyddir y system TTS (Testun i Lais) sy'n cael ei lleisio gan leisiau synthetig ffug Rachael (Saesneg) a Geraint (Cymraeg)*
>
> *Felly hoffwn wybod pa orsafoedd sy'n defnyddio pa system os gwelwch yn dda. Hefyd, os oes unrhyw orsafoedd lle nad oes cyhoeddiadau awtomatig ar gael ynddynt o hyd, nodwch pa rai ydynt."*

**Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydyn ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:**

Mae TrC yn cadw peth o'r wybodaeth rydych chi'n gofyn amdani.

Cyfeiriwch at y taenlenni sydd ynghlwm. Mae'r taenlenni wedi cael eu rhannu mewn fformat wedi'i gwahanu â chomas sylfaenol, sy'n golygu efallai y bydd angen i chi ehangu'r colofnau i weld yr wybodaeth sydd ynddynt. Mae'r wybodaeth a ddarperir fel a ganlyn:

<u>Gorsafoedd Mwy sy'n Addas ar gyfer System PA</u> – Rhestr o orsafoedd mwy lle mae system Atos (Worldline) ar waith, sy'n defnyddio lleisiau pobl go iawn, sef Ruth Mitchell (Saesneg) ac Eryl Jones (Cymraeg).

<u>Gorsafoedd Llai sy'n Addas ar gyfer System Testun i Lais</u> – Rhestr o orsafoedd llai lle mae system TTS (Testun i Lais) sy'n cael ei lleisio gan leisiau synthetig ffug Rachael (Saesneg) a Geraint (Cymraeg) ar waith.

Cofiwch: er bod y gorsafoedd llai sydd wedi'u rhestru yn "addas ar gyfer TTS" nid yw hyn yn golygu bod y system wedi'i galluogi. I gadarnhau hyn, byddai'n rhaid i aelod o staff adolygu dros 140 o sgriniau â llaw i weld a yw TTS wedi'i alluogi; a hyd yn oed wedyn, efallai na fydd cyhoeddiadau yn yr orsaf os yw'r seinydd wedi cael ei analluogi. Byddai angen gwneud rhagor o ymchwil gyda'n cyflenwr (Infotec) i gadarnhau ym mha rai o'r gorsafoedd lle mae TTS wedi'i alluogi y mae'r seinydd wedi'i alluogi/wedi'i analluogi. Rydym yn amcangyfrif y byddai hyn yn cymryd tua thri diwrnod i'w gwblhau. Felly, ni allwn gwblhau'r gwaith hwn gan fod hyn yn fwy

na'r terfyn amser a chost a ganiateir ar gyfer prosesu cais a wneir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (yn unol â'r eithriad yn Adran 12 yr amlinellwyd i chi'n flaenorol).

Mae TrC yn ceisio helpu gymaint â phosibl wrth ddefnyddio'r eithriad hwn, fel y gwyddoch eisoes yng ngoleuni ein gohebiaeth flaenorol. Er ein bod yn cydnabod bod y cais hwn eisoes wedi cael ei fireinio, y ffaith yw y bydd y dasg benodol hon bob amser yn torri'r terfyn amser a chost a ganiateir, ac ni allwn gynnig awgrym ar gyfer mireinio pellach i liniaru hyn. Rydym wir yn gobeithio y bydd yr wybodaeth rydyn ni wedi gallu ei darparu yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".